Teitl y Swydd: Uwch Ymgynghorydd – Rheoleiddio ac Ymgyrchu Cymru

Cyfarwyddiaeth: Datganoli, Llywodraethu a Chyfreithiol

Yn atebol i: Pennaeth y Comisiwn Etholiadol, Cymru

Yn gyfrifol am: -

---

# Pwrpas y swydd

Rheoli datblygiad cyngor rheoleiddio arbenigol yng Nghymru ar faterion cyllid gwleidyddol, er mwyn cefnogi cyflawni cynllun corfforaethol y Comisiwn a'i amcanion strategol sef galluogi system cyllid gwleidyddol y gellid ymddiried ynddi ac sy'n dryloyw.

## Prif Atebolrwydd

| Atebolrwydd | % |
|---|---|
| **Rheoli prosiectau rheoleiddiol**<br><br>Cynllunio, rheoli ac arwain datblygiad a chyflawniad amrywiaeth o brosiectau rheoleiddio a chynghori penodol, er mwyn helpu i gyflawni cynllun gweithredol tîm Cymru, gan gynnwys:<br><br>• Rheoli gwaith y Comisiwn yn y gymuned a reoleiddir yng Nghymru i sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau cyllid gwleidyddol;<br><br>• Cynrychioli y Comisiwn mewn cyfarfodydd byrddau prosiectau a rhaglenni Llywodraeth Cymru ac mewn cyfarfodydd â swyddogion mewn perthynas â'n gwaith rheoleiddio;<br><br>• Sicrhau bod materion sy'n codi mewn perthynas â'r gymuned a reoleiddir yng Nghymru yn cael eu bwydo i ddatblygiad strategaeth a pholisi'r Comisiwn ledled y DU;<br><br>• Rheoli cyfarfodydd chwarterol Panel Pleidiau'r Senedd, gan sicrhau bod y pleidiau'n cael gwybodaeth dda am waith y Comisiwn, Llywodraeth Cymru a phartneriaid allanol eraill;<br><br>• Arwain ymgysylltu ymysg y gymuned a reoleiddir yng Nghymru er mwyn rhoi cyngor a derbyn adborth ar waith y Comisiwn.<br><br>• Sicrhau bod dadansoddiad cyfredol o lefel y risg sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio gan bob corff y mae'r Comisiwn yng Nghymru yn gyfrifol amdano yn cael ei gynnal a'i weithredu. | **45%** |

| | |
|---|---|
| • Rheoli rhaglenni a phrosiectau tîm Cymru a gweithio gydag aelodau'r tîm i sicrhau bod holl amcanion y prosiect yn cael eu cyflawni. | |
| **Rhoi cyngor arbenigol a rheoli rhanddeiliaid**<br><br>Gweithredu fel pwynt cyswllt arbenigol y Comisiwn ar gyfer y gymuned a reoleiddir a phartneriaid allanol eraill mewn perthynas â chyllid gwleidyddol, gan gynnwys:<br><br>• Rheoli ymateb Comisiwn Etholiadol Cymru i geisiadau am gyngor rheoleiddio gan bleidiau, ymgyrchwyr, cynrychiolwyr etholedig a phartneriaid allanol eraill;<br><br>• Bod yn bwynt cyswllt arbenigol ar gyfer yr holl unigolion a reoleiddir yng Nghymru. Rheoli y wasanaeth cyngor a chanllawiau ar gyfer endidau ac unigolion a reoleiddir;<br><br>• Datblygu a rheoli cyfres o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer y gymuned a reoleiddir yng Nghymru i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau, gan gynnwys sesiynau briffio rhithiol neu wyneb yn wyneb a all ddigwydd mewn cynadleddau pleidiau neu mewn digwyddiadau allanol eraill.<br><br>• Cwrdd â chynrychiolwyr etholedig yng Nghymru ac yn San Steffan pan fo'n ofynnol, i roi cyngor a diweddariadau ar amcanion corfforaethol y Comisiwn.<br><br>• Rheoli'r broses gwirio cydymffurfiaeth yng Nghymru ar gyfer yr holl endidau a reoleiddir sydd â rhwymedigaethau adrodd, a sicrhau lle bo modd bod pob plaid ac ymgyrchydd yn cael eu dwyn i gydymffurfio â'r gyfraith. | **40%** |
| **Rheoli cymorth rheoleiddio yn Nghymru yn ystod etholiadau**<br><br>Arwain gwaith y Comisiwn yng Nghymru ar faterion rheoleiddio yn ystod etholiadau gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys;<br><br>• Cynorthwyo'r broses datblygu canllawiau ar gyfer etholiadau yng Nghymru, gweithio'n agos gyda'r timau canllawiau ar waith a fydd yn effeithio ymgeiswyr, asiantiaid ac ymgyrchwyr;<br><br>• Rheoli cyfathrebiadau mewnol yn effeithiol ymysg timau a chydweithwyr yn swyddfeydd y Comisiwn yn Llundain, Caerdydd a Belfast mewn perthynas â materion rheoleiddio;<br><br>• Cynrychioli'r Comisiwn yng Nghymru mewn sesiynau briffio awdurdodau lleol a rhoi cyngor rheoleiddio arbenigol i Swyddogion Canlyniadau, timau gwasanaeth Etholiadol, ac ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad; | **15%** |

| | |
|---|---|
| • Arwain y gwaith o roi cyngor arbenigol ar ôl yr etholiad ar gyfer endidau a reoleiddir er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau adrodd;<br><br>• Rheoli monitro gweithgarwch ymgyrchu yng Nghymru i sicrhau bod y rheiny sy'n ymwneud ag etholiadau yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol ac i nodi lle mae risg o beidio â chydymffurfio.<br><br>• Rheoli gwaith y Comisiwn gyda'r pedwar lu heddlu yng Nghymru a rhoi cyngor a chanllawiau arbenigol i Bwyntiau Cyswllt Unigol yr heddlu ar faterion hygrededd etholiadol. | |

## Perthnasoedd gwaith allweddol

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd meithrin perthnasoedd gwaith adeiladol a weithredol gyda'r gymuned a reoleiddir yng Nghymru, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid ac aelodau a etholwyd. Bydd deiliad y swydd hefyd yn gyfrifol am feithrin a chefnogi perthnasoedd adeiladol ymysg partneriaid allanol eraill, gan gynnwys swyddogion llywodraeth berthnasol, yn enwedig y rheiny sy'n gyfrifol am ddatblygu a rheoli polisïau sy'n ymwneud â rheoleiddio cyllid. Yn ogystal â hynny, uwch swyddogion awdurdodau lleol, aelodau staff o reoleiddwyr eraill, yr heddlu a phan fo angen asiantaethau gorfodi eraill.

Bydd deiliad y swydd yn cydweithio'n agos ag aelodau eraill o dîm Cymru i sicrhau bod amcanion y tîm yn bodloni'r nodau a osodwyd yng nghynllun corfforaethol y Comisiwn. Bydd gan ddeiliad y swydd hefyd gyfrifoldeb i ddatblygu, rheoli ac arwain rhaglenni gwaith a phrosiectau tîm Cymru.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn gweithio'n agos gyda'r tîm polisi, yn enwedig ar ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a fydd yn effeithio ar reoleiddio cyllid gwleidyddol, drwy wneud hyn, bydd yn sicrhau bod polisïau ac argymhellion yn cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn a thimau gweithredol yn y Gyfarwyddiaeth Gweinyddu a Rheoleiddio Etholiadau. Bydd hyn sicrhau bod profiad gweithredol yn cael ei adlewyrchu yn safbwyntiau polisi'r Comisiwn a bod gan y tîm polisi fewnbwn perthnasol i gynllunio, gweithredu neu werthuso prosesau rheoleiddio newydd. Bydd deiliad y swydd hefyd yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn y Timau Cyfreithiol a Deddfwriaeth a gyda chydweithwyr mewn swyddfeydd datganoledig eraill.

## Manylion ychwanegol

Bydd gan ddeiliad y swydd ymreolaeth gryf i weithredu ar ei liwt ei hun ac yn annibynnol er mwyn cynllunio a rheoli cyflawni swyddogaethau rheoleiddio cyllid gwleidyddol y Comisiwn yng Nghymru, heb fawr oruchwyliaeth/cymeradwyaeth. Pan fo angen cymeradwyaeth, bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflwyno ac argymell datrysiadau i Bennaeth Comisiwn Etholiadol Cymru, a phan fo'n briodol, aelodau Tîm Gweithredol y Comisiwn a Bwrdd y Comisiwn.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn meddu ar awdurdod sylweddol i gychwyn a datblygu perthnasoedd priodol gydag amrywiaeth o uwch bartneriaid allanol, yn enwedig gyda'r gymuned a reoleiddir yng Nghymru, a hefyd swyddogion llywodraeth berthnasol, swyddogion canlyniadau, ac aelodau etholedig.

**Manyleb Person**

| Categori | Gofyniad | Hanfodol neu Ddymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Addysg hyd at lefel Gradd neu brofiad perthnasol cyfatebol.<br><br>Cymhwyster rheoli perthnasol cydnabyddedig e.e. MBA, DMS, MSc, ILM. | H<br><br>D |
| **Profiad** | Profiad o weithio mewn swydd reoleiddiol gan gynnwys profiad o weithio yn y sector gyhoeddus.<br><br>Profiad ar lefel briodol o reoli prosiectau, cyllidebau neu staff, a phrofiad o fod yn rhagweithiol wrth gymryd camau i sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflwyno i'r safonau gofynnol o fewn terfynau amser tynn yn aml.<br><br>Profiad o ddadansoddi materion cyfreithiol a cheisio cyngor cyfreithiol, gweithio gyda deddfwriaeth a'i deall.<br><br>Profiad  o ysgrifennu briffiadau mewnol ac allanol a rheoli gohebiaeth ar gyfer rhanddeiliaid.<br><br>Profiad o weithio gyda chronfeydd data ac ymdriniaeth fanwl a chywir o weinyddu.<br><br>Hanes amlwg o ddylanwadu rhanddeiliaid yn llwyddiannus. | H<br><br>H<br><br>H<br><br>H<br><br>H<br><br>H |
| **Gwybodaeth a sgiliau** | Dealltwriaeth da o wleidyddolaeth a chymdeithas sifil.<br><br>Y gallu i arwain a chymell aelodau'r tîm, cyflawni i safon uchel a gwella perfformiad ac effeithiolrwydd yn barhaus.<br><br>Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>Yn meddu ar sgiliau negodi, dylanwadu a meithrin perthnasoedd.<br><br>Yn gyfarwydd â systemau a strwythurau gwleidyddol yng Nghymru a'r DU. | H<br><br>H<br><br>H<br><br>H<br><br>H |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn gallu cyfleu negeseuon cymhleth i gynulleidfaoedd amrywiol.<br><br>Sgiliau datrys problemau rhagorol.<br><br>Ymrwymiad cryf i gyflawni canlyniadau a gwelliant parhaus.<br><br>Dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol, rheoleiddiol a pholisi y mae'r Comisiwn Etholiadol yn gweithredu ynddo a deddfwriaeth berthnasol. | H<br><br>H<br><br>H<br><br>D |
| **Rhinweddau Personol** | Lefel uchel o feddwl yn greadigol a chysyniadol.<br><br>Y gallu i fod yn gadarnhaol a hyblyg pan fo amodau'n newid.<br><br>Sensitifrwydd gwleidyddol.<br><br>Y gallu i ymateb i sefydliad sy'n newid, sy'n annibynnol ac sy'n newid yn gyson.<br><br>Dull hyblyg o weithio a'r gallu i reoli gofynion a blaenoriaethau busnes newidiol yn ôl yr angen. | H<br><br>H<br><br>H<br><br>H<br><br>H |